# Ysgol Bro Cinmeirch

# Polisi Llau Pen

Dyddiad Cymeradwyo: 31.01.24
Dyddiad Adolygiad: 2027

Llofnodwyd: J Lovegrove (Cadeirydd y Llwyodraethwyr)

# Polisi Llau Pen

*At ddibenion y polisi hwn, mae'r term 'ysgol' yn cyfeirio at feithrinfeydd, ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sy'n cael eu cynnal ac unedau atgyfeirio disgyblion.

| | |
|---|---|
| Enw'r ysgol | Ysgol Bro Cinmeirch |
| Cyfeiriad a chod post | Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr Y.C, Dinbych, LL16 4NL |
| Rhif Ffôn | 01745 890347 |
| Cyfeiriad e-bost ar gyfer y polisi hwn | bro.cinmeirch@denbighshire.gov.uk |
| Dolen gwe i'r polisi | https://www.ysgolbrocinmeirch.co.uk/ |

***I'w lenwi gan yr ysgol:***

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi | Polisi Llau Pen |
| Rhif fersiwn y polisi | Fersiwn 1, 22/03/2019 |
| Dyddiad cafodd y Polisi ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethu | |
| Dyddiad daw'r polisi i rym | |
| Dyddiad Adolygu | (3 mlynedd) |
| Llofnodwyd (Pennaeth) | FJones |
| Llofnodwyd (Cadeirydd y Corff Llywodraethu) | |
| Gwybodaeth am y polisi hwn ar gael i rieni/gofalwyr | |

***I'w lenwi gan Wasanaethau Addysg a Phlant Sir Ddinbych:***

| | |
|---|---|
| Datblygwyd y Polisi gan | Paula Roberts |
| Dyddiad y mabwysiadwyd y polisi gan y Gwasanaethau Addysg a Phlant JMT | Chwefror 2019 |
| Dyddiad y cyflwynwyd y polisi gwreiddiol i ysgolion Sir Ddinbych | 22/03/2019 |
| Rhif y fersiwn a dyddiad | Fersiwn 1, 22/03/2019 |
| Fersiwn wedi'i ddatblygu gan | Paula Roberts |
| Dyddiad Adolygu | Ebrill 2022 |
| Asesiad lles wedi'i gwblhau a'r dyddiad | Dim yn berthnasol |

**1. Trosolwg**

Mae llau pen yn broblem gyffredin sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o bobl ar ryw adeg neu'i gilydd. Nod y polisi hwn yw helpu i leihau'r broblem ar gyfer rhieni/gofalwyr a'r ysgol. Mae'r polisi hwn wedi'i ysgrifennu gan ddefnyddio'r cyngor diweddaraf gan Lywodraeth Cymru, NHS Direct, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion BIPBC.

**2. Beth yw Llau pen?**

Pryfed bach gyda choesau sy'n symud yw llau pen. Maen nhw'n byw'n agos iawn at groen y pen. Nid yw nedd yr un fath â llau. Plisg yr wyau sy'n gludo i'r gwallt ydyn nhw, ac maen nhw'n edrych fel darnau bach o groen sych. Dim ond os byddwch chi'n dod o hyd i leuen sy'n symud (nid nedden) y bydd gennych chi lau pen. Does dim rhaid i'ch pen chi gosi i fod â llau pen.

**3. Sut ydych chi'n cael llau pen?**

Oherwydd gweithgareddau chwarae plant a chyswllt uniongyrchol pen wrth ben, plant sydd fel arfer yn cael llau pen, ond gall oedolion eu cael hefyd. Caiff llau pen eu dal gan deulu a ffrindiau agos yn y cartref a'r gymuned, yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae llau pen yn byw ym mhob math o wallt - budr neu lân, byr neu hir. Mae llau pen yn cerdded o un pen i'r llall, pan daw pennau i gysylltiad uniongyrchol â'i gilydd – nid ydyn nhw'n hedfan, neidio nac yn nofio.

**4. Triniaeth:**

Am gyngor ar sut i drin llau pen, gweler:
https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy

**5. Atal a rheoli llau pen yn yr ysgol:**

Mae'r bartneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref yn hanfodol bwysig wrth atal a rheoli llau pen.

1. Bydd yr ysgol yn rhannu gwybodaeth addysgol am lau pen gyda rhieni/gofalwyr yn rheolaidd (ar ddechrau pob tymor o leiaf) a ddim yn aros i achos o lau pen dorri allan. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am wirio am lau a sut i'w trin.
2. Bydd gwybodaeth am y polisi hwn yn cael ei chynnwys ym mhrosbectws yr ysgol a'r wefan.

**6. Pan fydd aelod o staff yn sylwi ar achos o lau pen:**

1. Os gwelir bod gan ddisgybl yn yr ysgol leuen fyw sy'n symud, rhoddir gwybod i riant/gofalwr y plentyn (yn gyfrinachol) er mwyn iddyn nhw allu trin yr haint. Rhoddir gwybodaeth am:
    a. Yr wybodaeth ddiweddaraf ar drin llau pen
    b. Y cyngor sydd ar gael gan y fferyllfa leol am driniaeth
2. Os bydd yr haint llau pen yn parhau, caiff llythyr ei anfon at rieni/gofalwyr y plentyn (yn gyfrinachol). Yn y llythyr hwn, bydd yn nodi bod posibilrwydd y caiff yr wybodaeth hon ei rhannu â'r Nyrs Ysgol fel y gellir rhoi cyngor a chyfarwyddyd.
3. Caiff y nyrs ysgol ei hysbysu o achosion eithafol, di-baid o heintiau llau pen. Gall achosion o'r fath hefyd arwain at atgyfeiriad gan yr ysgol at asiantaethau eraill, e.e. y Gwasanaethau Plant. Gellir atgyfeirio pryderon ynghylch glendid cyffredinol, gan gynnwys llau pen di-baid, at asiantaethau eraill, megis yr ymwelydd iechyd neu'r Gwasanaethau Plant.
4. Ni chaiff disgybl â llau pen ei wahardd o'r ysgol.

**7. Mwy o wybodaeth:**

https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy
https://cks.nice.org.uk/head-lice#!diagnosissub
https://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/43732

**8. Prosbectws a/neu wybodaeth ar y wefan:**

**Gwybodaeth am y polisi llau pen**

Mae llau pen yn broblem gyffredin sy'n effeithio ar y rhan fwyaf o bobl ar ryw adeg neu'i gilydd. ***Nod y polisi yw lleihau'r broblem i chi fel rhieni/gofalwyr ac i ni fel ysgol.***

Byddwn yn rhannu gwybodaeth gyda rhieni/gofalwyr yn rheolaidd am gadw llygad am lau pen a sut i'w trin. Byddwn yn gofyn i rieni/gofalwyr fod yn wyliadwrus wrth edrych drwy wallt eu plentyn.

Os **amheuir** bod gan ddisgybl yn yr ysgol leuen fyw sy'n symud, rhoddir gwybod i'w rhiant/gofalwr (yn gyfrinachol) er mwyn iddyn nhw allu gwirio a thrin y broblem. Os bydd yr haint llau pen yn parhau, byddwn yn anfon llythyr cyfrinachol at rieni/gofalwyr y disgybl; gall gwybodaeth gael ei rhannu gyda'r Nyrs Ysgol hefyd er mwyn gallu rhoi cyngor a chyfarwyddyd. Caiff y nyrs ysgol a/neu asiantaethau eraill eu hysbysu o ddiffyg glanweithdra, gan gynnwys achosion eithafol neu di-baid o heintiau llau pen. Ni chaiff disgybl â llau pen ei wahardd o'r ysgol.

I gael rhagor o wybodaeth am lau pen a sut i'w trin, ewch i:
https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy

**9. Gwybodaeth gyffredinol am lau pen ar gyfer newyddlenni, Trydar, negeseuon testun neu unrhyw ffyrdd eraill o gyfathrebu gyda'r rhieni:**

**Llau Pen**

Pryfed bach (dim mwy na hedyn sesame ar ôl tyfu'n llawn) yw llau pen, gyda choesau sy'n symud. Maen nhw'n byw'n agos iawn at groen y pen. Nid yw nedd yr un fath â llau. Plisg yr wyau sy'n gludo i'r gwallt ydyn nhw, ac maen nhw'n edrych fel darnau bach o groen sych. Dim ond os byddwch chi'n dod o hyd i leuen sy'n symud (nid nedden) y bydd gennych chi lau pen. Does dim rhaid i'ch pen chi gosi i fod â llau pen.

Oherwydd gweithgareddau chwarae plant a chyswllt uniongyrchol pen wrth ben, plant sydd fel arfer yn cael llau pen, ond gall oedolion eu cael hefyd. Caiff llau pen eu dal gan deulu a ffrindiau agos yn y cartref a'r gymuned, yn ogystal ag yn yr ysgol. Mae llau pen yn byw ym mhob math o wallt - budr neu lân, byr neu hir. Mae llau pen yn cerdded o un pen i'r llall, pan daw pennau i gysylltiad uniongyrchol â'i gilydd – nid ydyn nhw'n hedfan, neidio nac yn nofio. Efallai y byddai'n gyngor da cadw gwallt hir wedi ei glymu'n ôl er mwyn lleihau'r risg o haint.

Oherwydd y bydd y rhan fwyaf o blant yn cael llau pen ar ryw adeg neu'i gilydd, rydym yn awgrymu'n gryf bod ein rhieni/gofalwyr yn gwirio gwallt eu plant fel mater o drefn, o leiaf unwaith yr wythnos. I gael rhagor o wybodaeth am lau pen, sut i edrych am lau pen a'u trin, ewch i'r wefan hon, neu ewch at eich fferyllydd lleol:
https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy

**Fersiwn Fer**

Rydym yn awgrymu'n gryf bod ein rhieni/gofalwyr yn gwirio gwallt eu plant fel mater o drefn. I gael rhagor o wybodaeth am lau pen, sut i edrych am lau pen a'u trin, ewch i'r wefan hon, neu ewch at eich fferyllydd lleol:
https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy

20953_Head lice fact sheet (W).pdf

WG Head Lice Leaflet (W).pdf

**10. CYFRINACHOL: Llythyr cyswllt rhif 1 (NEU gall fod wyneb yn wyneb, dros y ffôn, neges destun, e-bost, llythyr ac ati):**

Annwyl Riant/Ofalwr

**Cyfrinachol: llau pen**

Rydym wedi sylwi ei bod yn **bosibl** bod gan eich plentyn lau pen, a hoffem eich cynghori i wirio gwallt eich plentyn a'i drin fel sy'n briodol.

I gael rhagor o wybodaeth am lau pen a sut i'w trin, gweler y daflen atodedig, ewch i wefan GIG neu'r fferyllfa leol: https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy

WG Head Lice Leaflet.pdf

**11. Llythyr cyswllt rhif 2:**

| |
|---|
| Annwyl Riant/Ofalwr<br><br>**Cyfrinachol: llau pen**<br><br>Rydym wedi sylwi ei bod yn **ymddangos** bod gan eich plentyn lau pen o hyd, y mae'n siŵr eich bod wedi bod yn eu trin. Byddem yn eich cynghori i wirio a thrin y llau pen cyn gynted â phosibl. Efallai y byddwn yn cysylltu â'r Nyrs Ysgol er mwyn cael cyngor a chyfarwyddyd<br><br>I gael rhagor o wybodaeth am lau pen a sut i'w trin, gweler y daflen atodedig, ewch i'r wefan hon neu'r fferyllfa leol:<br>https://www.nhsdirect.wales.nhs.uk/encyclopaedia/h/article/headlice?locale=cy<br><br>WG Head Lice Leaflet.pdf |